# Trefnydd Gwybodaeth TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant - Uned 6, Tasg 1

cbac wjec

**Gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau**
Mae gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn meithrin gwydnwch mewn oedolion oherwydd mae ei ffocws ar "yr hyn sy'n bwysig" i'r unigolyn, gan adeiladu ar ei gryfderau a'i alluoedd. Mae gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn nodi pa nodau mae oedolyn yn dymuno eu cyflawni ac yn gosod canlyniadau realistig sy'n esblygu gydag amser wrth i gyflwr oedolyn newid. Dylai sgyrsiau am ganlyniadau fod yn ystyrlon, gan gefnogi gofalwyr ffurfiol ac anffurfiol yn ogystal â'r unigolyn. Dylid diwallu anghenion corfforol sylfaenol oedolyn fel rhan o ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn ogystal â'i anghenion cymdeithasol, gan ganiatáu iddo gymryd rhan mewn cymdeithas a chyfrannu ati a theimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i barchu.

**Asesu**
Rheoleiddir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
Yn canolbwyntio ar gleifion gyda'r unigolyn wrth wraidd penderfyniadau.
Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd gofal i gynnal asesiadau.
Darparu gwasanaethau, megis gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal yn y cartref, cymhorthion ac addasiadau ar gyfer byw'n annibynnol.
Gall fod wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein gan arwain at gynllun gofal.

**Anghenion unigol**
**Corfforol** (ymarfer corff, deiet, meddyginiaeth, amddiffyn rhag niwed, cysur corfforol); **deallusol** (gwybyddiaeth, ysgogiad, ymgysylltu â gweithgareddau); **ieithyddol** (cyfathrebu – geiriol/di-eiriau, Mwy na geiriau, Cynnig Rhagweithiol, iaith arwyddion, braille); **emosiynol** (preifatrwydd, urddas, sicrwydd seicolegol, ymreolaeth, teimlo'n ddiogel a sicr); a **chymdeithasol** (cyswllt cymdeithasol, cymorth cymdeithasol, ymdeimlad o integreiddio cymdeithasol).

**Rhwystrau i gael gofal**

- cymhwysedd (statws ariannol, statws mewnfudo, parhauster cyfeiriad)
- rhwystrau daearyddol (cod post, trafnidiaeth)
- adnoddau (cyllid lleol, galw, cost gwasanaethau y gellir codi tâl amdanynt)
- statws economaidd-gymdeithasol (diffyg hyder, diffyg arian ar gyfer trafnidiaeth, gorbryder, rhwystrau seicolegol, diffyg addysg am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol)
- iaith a chyfathrebu (diffyg gwybodaeth, gwybodaeth iaith ddeuol/taflenni dwyieithog, eiriolaeth, braille a chymhorthion ar gyfer clyw).

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

- Llais a rheolaeth
- Atal ac ymyrryd yn gynnar
- Llesiant
- Cydgynhyrchu

**Cyfnodau pontio a phrofiadau bywyd**

Symud o un cyfnod neu set o wasanaethau i un arall: er enghraifft, symud o'r glasoed i fod yn oedolyn ac o fod yn oedolyn i fod yn oedolyn hŷn; dod yn rhiant neu nain neu daid/mam-gu neu dad-cu; dod yn weddw ar ôl colli partner; ymddeol o'r gwaith.

Newidiadau sy'n deillio o wybodaeth a phrofiad: datblygu cyfeillgarwch; cyfarfod partner; dyrchafiad yn y gwaith; profi profedigaeth; datblygu sgiliau; dealltwriaeth a doethineb.

Hefyd, datblygu cyflwr iechyd acíwt neu gronig; colled (dementia, golwg, clyw, annibyniaeth); symud i le gwahanol; dod yn ffoadur/digartref.

**Anghenion gofal cymhleth**

Mae mwy nag un cyflwr iechyd difrifol gan tua 1 o bob 4 oedolyn, ac mae'r ffigur hwn hyd yn oed yn uwch ymysg poblogaeth sy'n heneiddio. Mae cael cyflyrau iechyd niferus yn arwain at anghenion gofal cymhleth, lle mae angen cymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol amrywiol. Mae anghenion gofal cymhleth oherwydd cyflyrau iechyd niferus yn arwain at farwolaeth gynnar, bywyd o ansawdd is, mwy o ymweliadau fel claf allanol a chynnydd mewn cymorth meddygol.

Mae gofal cymhleth yn ddull person-ganolog o drin unigolyn a all fod â chyfuniad o broblemau meddygol, broblemau iechyd meddwl a/neu ymddygiadol a phroblemau cymdeithasol. Dylai fod cynllun gofal canolog ar waith i reoli anghenion gofal cymhleth fel y caiff anghenion gofal eu hasesu, ac y caiff gwasanaethau gofal eu cynllunio, eu rhoi ar waith, eu monitro a'u gwerthuso wrth i anghenion newid.